DYDDIEDIG 16 CHWEFROR 2022

# CYNGOR SIR Y FFLINT

# LINDEN AVENUE, BEECHWOOD AVENUE A ST DAVID'S DRIVE, CEI CONNAH

# (GWAHARDD A CHYFYNGU AR AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO) (GORFODAETH SIFIL AC ATGYFNERTHU) (DIWYGIAD RHIF 47 GORCHYMYN 2022


Katie Wilby,

Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant),

Neuadd y Sir,

Yr Wyddgrug,

Sir y Fflint,

CH7 6NF

**CYNGOR SIR Y FFLINT**

**LINDEN AVENUE, BEECHWOOD AVENUE A ST DAVID'S DRIVE, CEI CONNAH**

**(GWAHARDD A CHYFYNGU AR**

**AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO)**

**(GORFODAETH SIFIL AC ATGYFNERTHU) (DIWYGIAD RHIF 47) GORCHYMYN 2022**

Mae Cyngor Sir y Fflint, wrth ddefnyddio'i bwerau dan adrannau 1 (1), 2 (1)(2), 4 (2)(3) a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("Deddf 1984") fel y'i diwygiwyd, Deddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004") a phob pŵer galluogi arall, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

## ADRAN 1 - RHAGARWEINIOL

**Enwi a chychwyn**

1. Fe ddaw'r Gorchymyn hwn i rym ar 28 Chwefror 2022 a gellir ei alw yn Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint LINDEN AVENUE, BEECHWOOD AVENUE A ST DAVID'S DRIVE, CEI CONNAH (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodaeth Sifil ac Atgyfnerthu) (Diwygiad Rhif 47) 2022

2. Fe ddaw i rym o'r dyddiad a nodir yn Erthygl 1 uchod, mae Map Atodlen AU72 Diwygiad Taflen Rhif 2: yn dirymu Map Atodlen AU72 Diwygiad Taflen 1 a'r holl atodlenni map eraill ynghyd â'r atodlenni map a grybwyllir uchod a'r cynlluniau y cyfeirir atynt yn Atodlenni'r Gorchymyn hwn, yn cael eu hymgorffori yng Ngorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodaeth Sifil ac Atgyfnerthu) 2013.

3. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn fel y mae'n berthnasol i ddehongli Deddf Seneddol.

4. Yn y Gorchymyn hwn, oni nodir fel arall, mae unrhyw gyfeiriad at Erthygl neu Atodlen gyda rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw, ac mae unrhyw gyfeiriad at gynllun yn cyfeirio at gynllun wedi'i ymgorffori yn y gorchymyn hwn.

**ATODLEN 1**
**Cyfyngiadau Dim Aros ar Unrhyw Adeg**
**Cei Connah**

| Enw'r Ffordd | Atodlen Map | Diwygiad Taflen |
|---|---|---|
| Linden Avenue | AU72 | 2 (sy'n dirymu Diwygiad Taflen 1 o Orchymyn 2013) |
| Beechwood Avenue | AU72 | 2 (sy'n dirymu Diwygiad Taflen 1 o Orchymyn 2013) |
| St Davids Drive | AU72 | 2 (sy'n dirymu Diwygiad Taflen 1 o Orchymyn 2013) |

**ATODLEN 2**
**'Dim Aros' ar y marciau 'Ysgol Cadwch yn Glir' rhwng 8am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, gan gynnwys y dyddiau hynny.**
**Cei Connah**

| Enw'r Ffordd | Atodlen Map | Diwygiad Taflen |
|---|---|---|
| Linden Avenue | AU72 | 2 (sy'n dirymu Diwygiad Taflen 1 o Orchymyn 2013) |
| St Davids Drive | AU72 | 2 (sy'n dirymu Diwygiad Taflen 1 o Orchymyn 2013) |

**RHODDWYD SÊL GYFFREDIN**
**CYNGOR SIR Y FFLINT)**
yn y fan hon )
y 16 diwrnod o Chwefror 2022 )
yng ngŵydd:- )

1978

**Y CADEIRYDD**

**~~RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL~~**
**PRIF SWYDDOG (LLYWODRAETHU)**